

Cofnodion cyfarfod 5/5/2020

Presennol: Oherwydd cyfyngiadau'r argyfwng Covid-19, cynhaliwyd cyfarfod rhithiol ar y ffôn a thrwy gyfrwng e-bost; cysylltwyd gyda phob aelod.

1. Sylwadau'r Maer – diolchodd i'r Clerc a Dilwyn Morgan am gysylltu gyda'r Heddlu ar ran y Cyngor yn dilyn helyntion parcio yn Heol Aran.

Derbyniwyd datganiad buddiant oddi wrth y Maer a Sue Davies ym mater cyfraniad i Brosiect Adnoddau Ieuenctid o dan ofal Ysgol Godre'r Berwyn (eitem 7ii isod)

2. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 2il, 2020 a gynhaliwyd drwy e-bost/ffôn.

3. **Materion y Clerc:**

- i. Ciosg y Stryd Fawr: Mae'r Cytundeb wedi ei arwyddo a'r cam nesaf yw i BT dynnu'r offer teleffonio.
- ii. Cytunwyd i geisio cynnal cyfarfodydd gan ddefnyddio Zoom. Ymddiheurodd un Cynghorydd am beidio â defnyddio Zoom, ond roedd yn barod i ddefnyddio'i ffôn er mwyn bod yn rhan o'r cyfarfod. Cynigiodd y Maer bod y Cynghorwyr yn cael cyfle i ymarfer defnyddio'r offer wythnos ymlaen llaw wrth drafod cynnwys yr Agenda. Bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer 28/5/20.
- iii. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor– derbyniwyd gwybodaeth fod rhaid ei ohirio oherwydd yr angen i gynnwys y cyhoedd.
- iv. Yswiriant – disgwylir dyfynbris gan gwmni arall er mwyn cymhariaeth.

4. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi bod yn trafod mater y parcio yn Heol Aran gyda'r Heddlu.

5. **Derbyn Adroddiadau** - dim

6. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf: derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept (12500); cytunwyd i dalu Anfonebau: Glanhau'r Llochesi Bws £50; Cyfrifwyr £132; Cyflog Ebrill .
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth gan y *Pensions Regulator*.
- iii. Ystyriwyd yr Archwiliad Mewnol. Mae'r Archwilydd yn barod i dderbyn dogfennau o'r Wefan a dogfennau eraill yn electronig.
- iv. **Y Ffurflen Flynyddol:** Ystyriwyd tudalen 2 a thudalen 3 a e-bostiwyd at y Cynghorwyr. Cytunwyd gyda'r Datganiadau i gyd (oni bai am yr archwiliad mewnol sydd heb ddigwydd eto). Cymeradwywyd y Ffurflen i sylw'r Archwilydd Mewnol.

v. Derbyniwyd y ddogfen Cysoni'r Banc gan y Clerc.

7. Cytunwyd:

- i. Trosglwyddo £800 fel y cytunwyd yn y Gyllideb i Gronfa'r Maer
- ii. Trosglwyddo £5000 i Brosiect Adnoddau Ieuenctid (o dan adain Ysgol Godre'r Berwyn) fel y cytunwyd yn y Gyllideb i ddiwallu anghenion ieuenctid llai breintiedig. Cytunwyd fod hyn yn bwysig iawn gan nad oes gan bob disgybl fynediad cyfartal tuag at gyfle cyfartal yn arbennig yn y cyfnod hwn o ddysgu o bell.

8. Gohebiaeth: Derbyniwyd llythron o ddiolch am gyfraniad oddi wrth Gymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Y Bala a Phenllyn, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Derbyniwyd a rhannwyd i'r Cynghorwyr negeseuon o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Un Llais Cymru.

9. Materion lleol y Cynghorwyr Tref: Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan a'r Clerc ofyn am linellau dwbl melyn yn y rhan cul o Heol Aran.

Dyddiadau: Ymarfer Zoom a thrafod yr Agenda 7.00pm 28/5/20
Cyfarfod mis Mehefin o'r Cyngor: Zoom a Ffôn, 7.00pm 4/6/2020